**Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad**
—
**Legislation, Justice and Constitution Committee**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddDCC@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddDCC
0300 200 6565
—
**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddLJC@senedd.wales
senedd.wales/SeneddLJC
0300 200 6565

Sarah Murphy AS
Y Gweinidog Iechyd Meddwl a Llesiant

28 Tachwedd 2024

Annwyl Sarah

Rheoliadau Honiadau am Faethiad ac Iechyd (Cymru) (Diwygio) 2024

Byddwch yn ymwybodol bod y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a Chyfansoddiad wedi cyflwyno adroddiad yn ddiweddar i'r Senedd ar Reoliadau Honiadau am Faethiad ac Iechyd (Cymru) (Diwygio) 2024.

Yng nghyfarfod y Pwyllgor ar 25 Tachwedd 2024, buom yn trafod ymateb Llywodraeth Cymru i'r pwyntiau a godwyd yn ein hadroddiad. Mae un mater y byddem yn croesawu rhagor o wybodaeth yn ei gylch.

Mae'r ail bwynt technegol a godwyd yn adroddiad y Pwyllgor yn tynnu sylw at faterion yn ymwneud â thermau diffiniedig. Fe wnaethom ni ofyn i Lywodraeth Cymru egluro pam nad yw'r termau hyn wedi'u mewnosod fel diffiniadau newydd yn nhestun addasedig *Deddf Diogelwch Bwyd 1990*. Mewn ymateb, dywedwyd wrth y Pwyllgor:

> *"Mae Llywodraeth Cymru yn cytuno nad oes ystyr wedi ei roi i'r term "darpariaeth benodedig o'r Rheoliad" yn nhestun addasedig Deddf 1990. Ar y cyd â Chofrestrydd yr OSau rydym yn archwilio'r posibilrwydd o wneud y newid drwy gyfrwng slip cywiro."*

Yn ein barn ni, gallai mewnosod termau diffiniedig yn y testun addasedig fod yn newid sylweddol. Fel y cyfryw, byddem yn croesawu cadarnhad o ganlyniad trafodaethau Llywodraeth Cymru gyda Chofrestrydd yr OSau, ac a yw pob un o'r tri mater a godwn ym mhwynt adrodd dau wedi'u derbyn ar gyfer slip cywiro.

Byddwn yn ddiolchgar o gael ymateb erbyn 2 Ionawr 2025.

Hoffwn hefyd achub ar y cyfle i ddiolch ichi am osod Memorandwm Esboniadol diwygiedig gerbron y Senedd yn unol â'ch ymrwymiad a roddwyd mewn ymateb i bwynt saith yn adroddiad y Pwyllgor.

Yn gywir,

Mike Hedges
Cadeirydd